


Y Ganolfan
Dysgu Cymraeg
Genedlaethol —
National Centre
for Learning Welsh

# Newyddion Dysgu Cymraeg

## Learn Welsh Latest

Hydref

Autumn 2019

# Croeso cynnes ar ddechrau tymor newydd

Mae miloedd o oedolion wedi cofrestru ar dros fil o gyrsiau Dysgu Cymraeg y tymor newydd yma, ac mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn dymuno'n dda iddyn nhw a'u tiwtoriaid. Mae cyrsiau cenedlaethol newydd ar lefel Mynediad (i ddechreuwyr), Sylfaen ac Uwch wedi'u cyflwyno, gydag adnoddau digidol helaeth, gan gynnwys ymarferion sain a fideo, ar gael ar Safle Rhyngweithiol y Ganolfan: dysgucymraeg.cymru.

# A warm welcome at the start of a new term

Thousands of adults have registered on over 1000 Learn Welsh courses this new term, and the National Centre for Learning Welsh sends best wishes to both learners and tutors. New national courses have been introduced at Entry (beginners), Foundation and Advanced levels, with extensive digital resources, including video and audio, available on the Centre's Interactive Site: learnwelsh.cymru



# Dathlu Dysgu Cymraeg gyda Radio Cymru

Ddydd Sadwrn, 12 Hydref, bydd BBC Radio Cymru yn dechrau wythnos arbennig o raglenni ac eitemau sy'n Dathlu Dysgu Cymraeg.  Ymhlith uchafbwyntiau'r wythnos, bydd:

- ***Bwletin Newyddion*** i ddysgwyr bob nos am 8pm.
- Criw o ddysgwyr yn cymryd yr awenau bob prynhawn ar raglen ***Ifan Jones Evans***.
- Penodau newydd o ***Hanes yr Iaith*** gan y prifardd Ifor ap Glyn, yn trafod rhai o'r geiriau sydd wedi dod i'r brig ym mhôl 'Hoff Air' Cymraeg rhaglen ***Aled Hughes.***
- ***Wynne Evans: O Gaerfyrddin i Go Compare*** - podlediad newydd i ddysgwyr gyda'r cyflwynydd a'r dysgwr Cymraeg.
- Y ddysgwraig Siri Widgel, sy'n wreiddiol o Norwy, yn westai ar raglen ***Beti a'i Phobl***.

Bydd modd gwrando yn ôl ar unrhyw raglen drwy ddefnyddio ap ***BBC Sounds***.  Dilynwch #DathluDysgu a #LearnCymraeg ar Twitter.

# Celebrate Learning Welsh with Radio Cymru

On Saturday, 12 October, BBC Radio Cymru will start a special week of programmes and items which celebrate Learning Welsh.  Among the week's highlights will be:

- A ***news bulletin*** for Welsh learners each evening at 8pm
- Learners joining ***Ifan Jones Evans*** on his daily afternoon programme.
- New episodes of '***Hanes yr Iaith'*** ('History of the Language') with poet Ifor ap Glyn discussing the results of the 'Favourite Welsh Word' poll held by the ***Aled Hughes*** programme.
- A new podcast with presenter and Welsh learner, ***Wynne Evans: O Gaerfyrddin i Go Compare*** (From Carmarthen to Go Compare).
- Welsh learner Siri Widgel, originally from Norway, will be Beti George's guest on ***Beti a'i Phobl*** (Beti and her People).

It will be possible to listen again to any programme by using the ***BBC Sounds*** app.  Follow #DathluDysgu a #LearnCymraeg on Twitter.



# Sianel Dysgu Cymraeg

Mae S4C wedi lansio sianel ar-lein newydd sy'n gartref i lu o raglenni addas ar gyfer dysgwyr.

Mae'r [Sianel Dysgu Cymraeg] yn rhan o ' S4C Clic', gwasanaeth ar-alw S4C. Mae'n cynnwys cyfresi poblogaidd fel ***Garddio a Mwy*** (wele'r llun uchod). Mae S4C yn barod yn darlledu rhaglenni ar gyfer dysgwyr ar ddydd Sul ac mae pytiau digidol hefyd ar gael i ddechreuwyr.

Meddai Owen Evans, Prif Weithredwr S4C: "Mae'r Sianel Dysgu Cymraeg newydd yn rhan o ymrwymiad S4C i gefnogi dysgwyr Cymraeg a'u croesawu i'r gwasanaeth."

Ychwanegodd Efa Gruffudd Jones, Prif Weithredwr y Ganolfan: "Mae creu cyfleoedd i ddysgwyr ymarfer eu Cymraeg, a magu hyder i ddefnyddio'r iaith, yn rhan fawr o genhadaeth y Ganolfan a 'dyn ni'n falch iawn o gydweithio gydag S4C ar y fenter ddiweddaraf hon."

# Learn Welsh channel

S4C has launched a new online channel with suitable programmes for Welsh learners.

The ['Learn Welsh Channel'] is part of 'S4C Clic', S4C's online catch-up service. The channel includes popular series such as gardening show, ***Garddio a Mwy***, ('Gardening and More' - above photo) chosen with the Centre's support. S4C already broadcasts programmes for Welsh learners on Sundays. Digital content is also available for beginners.

Owen Evans, S4C's Chief Executive, says: "The new Learn Welsh Channel is part of S4C's commitment to supporting Welsh learners and welcoming them to the service."

Efa Gruffudd Jones, the Centre's Chief Executive, adds: "Creating opportunities for learners to practise their Welsh is a key part of the Centre's mission and we're delighted to be working with S4C on this latest initiative."



# Cymraeg Gwaith

Fel rhan o gynllun y Ganolfan i gryfhau sgiliau Cymraeg yn y gweithle, 'Cymraeg Gwaith', mae cyrsiau ar-lein newydd ar gyfer y sector Addysg yn cael eu cyflwyno.

Bydd cwrs ar gyfer penaethiaid yn barod ddiwedd y mis, gyda chwrs pwrpasol ar gyfer athrawon yn cael ei gyhoeddi ddiwedd Tachwedd. Bydd y ddau gwrs 10-awr o hyd ar gael yn rhad ac am ddim ar Safle Rhyngweithiol y Ganolfan: dysgucymraeg.cymru

Mae Cymraeg Gwaith wedi'i sefydlu ers tair blynedd, ac mae'r cynllun yn cynnwys cyrsiau dysgu dwys, cyrsiau preswyl codi hyder a chefnogaeth i gyflogwyr. Mae cyrsiau ar-lein hefyd wedi'u teilwra ar gyfer meysydd eraill, gan gynnwys Iechyd, Gofal, Twristiaeth a Manwerthu.

Mae'r Ganolfan yn parhau i gydweithio gyda gwahanol sectorau a chyflogwyr er mwyn cyflwyno cyrsiau Dysgu Cymraeg addas a hyblyg. Am fwy o wybodaeth, e-bostiwch: cymraeggwaith@dysgucymraeg.cymru

# Work Welsh

As part of 'Work Welsh', the Centre's programme to strengthen Welsh language skills in the workplace, new online courses have been introduced for the Education sector.

A course for head teachers will be ready at the end of this month, with a bespoke course for teachers published at the end of November. Both 10-hour courses will be available free of charge on the Centre's interactive site: learnwelsh.cymru

'Work Welsh' was introduced three years ago and includes intensive learning courses, residential courses to build confidence, and support for employers. Online courses have also been tailored for other sectors, including Health, Care, Tourism and Retail.

The Centre continues to work with different sectors and employers in order to introduce flexible, tailored learning. For more information, e-mail: workwelsh@learnwelsh.cymru

# Adroddiad Blynyddol

Bydd y Ganolfan yn cyhoeddi Adroddiad Blynyddol ar gyfer y flwyddyn academaidd 2018-2019 ar 30 Hydref.

# Annual Report

The Centre will publish its Annual Report for the 2018-2019 academic year on 30 October.